PWYLLGOR AMODAU CYFLOGAETH

DYDD MERCHER, 22 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowen-Thomson, Boyle, Bridgeman, Cowan, Joyce a/ac Walker |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stubbs.

2 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol wrth i'r eitem berthnasol agor.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3 : CADEIRYDD

Nododd y Pwyllgor bod y Cyngor wedi penodi'r Cynghorydd Weaver fel Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2017/18.

4 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd i'r Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 25 Mai 2017 gytuno ar yr aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl canlynol:

(i) Aelodaeth

Bridgeman, Boyle, Bowen-Thompson, Cowan, Joyce, Stubbs, Weaver a Walker

(ii) Cylch Gorchwyl

(a) Ystyried a phenderfynu ar faterion polisi a materion yn deillio o'r sefydliad, telerau ac amodau cyflogeion unigol ar lefel Prif Swyddog/Cyfarwyddwr Cynorthwyol ac uwch (ynghyd ag unrhyw gategori arall o gyflogai a nodir yn y Rheoliadau o bryd i'w gilydd) lle bo hynny'n briodol;

(b) b) Penderfynu ar geisiadau ail-raddio swyddi ar lefel Prif Swyddog ac uwch (ynghyd ag unrhyw gategori arall o gyflogai a nodir yn y Rheoliadau o bryd i'w gilydd) un ai drwy apêl gan gyflogai yn erbyn penderfyniad i wrthod cais ail-raddio neu i benderfynu ar geisiadau ail-raddio a gefnogir.

5 : COFNODION

Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2016.

6 : CYNNIG YR UWCH DÎM RHEOLI

Er mwyn sicrhau y gall y weinyddiaeth gyflawni ei hymrwymiadau Uchelgais Prifddinas, ac hefyd i ystyried ymddeoliad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn digwydd maes o law, gwnaeth y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2017 gytuno i ddiwygio’r Strwythur Uwch Reoli ar Haen 1 a Haen 2. Cyfeiriodd y Cabinet at y Pwyllgor hwn am benderfyniad fel sy’n briodol: materion datganiadau’n nodi dyletswyddau’r swyddi uwch reoli newydd ac unrhyw gymwysterau neu nodweddion y dylid eu ceisio gan y person a benodir; telerau ac amodau y swyddi newydd; a chyflogau’r swyddi newydd.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn nodi’r Strwythur Uwch Reoli diwygiedig, Proffiliau Rôl y swyddi hynny, y telerau ac amodau arfaethedig ac adroddiad dadansoddiad marchnad ar feincnodi cyflogau a gynhaliwyd gan Grŵp Korn Ferry Hay. Cafodd yr Aelodau wybod bod creu, cyflog a hysbysebu swydd newydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau arfaethedig yn amodol ar benderfyniad gan y Cyngor ar 30 Tachwedd 2017.

Mae’r strwythur uwch reoli newydd a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 16 Tachwedd 2017 yn dileu swyddi'r Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid a’r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Masnachol. Mae’r strwythur diwygiedig yn cynnwys y swyddi newydd canlynol:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Landlord Corfforaethol
- Cyfarwyddwr Corfforaethol y Strydlun
- Prif Swyddog Digidol
- Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (swydd Rheolwr Gweithredol)

Yn seiliedig ar gyngor y Grŵp Korn Ferry Hay, argymhellwyd y dylai’r swyddi Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol fod gyfwerth â’r swyddi Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol presennol. Dylai cyflog y swyddi newydd fod ar y cyflog penodol a gytunwyd gan y Pwyllgor yn flynyddol a gafodd ei gadarnhau yn Natganiad Polisi Cyflog blynyddol y Cyngor ar gyfer 2017/18 a gymeradwywyd ym mis Mawrth.

Cafodd yr aelodau wybod bod swydd y Prif Swyddog Digidol wedi’i werthuso gan y Grŵp Korn Ferry Hay ar lefel rhwng Cyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Cynorthwyol ac felly, dylid creu cyflog penodol o £98,270. Felly, cafodd y swyddi newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei werthuso ar lefel RhG1. Mae swydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn swydd statudol, a bydd angen proses panel penodi aelodau.

Cafodd cyfres o argymhellion diwygiedig, gan gynnwys argymhelliad penodol yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried cymeradwyo'r cyflog penodol ar gyfer y swydd Prif Swyddog Digidol yn y cyfarfod. Gwahoddwyd aelodau i godi cwestiynau neu wneud sylwadau ar y wybodaeth yn yr adroddiad.

Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd ei bod hi’n bosibl i gyflawni’r Strwythur Uwch Reoli diwygiedig ar sail cost-niwtral. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr hyn.

Trafododd yr Aelodau’r manteision o greu swydd newydd ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol a ph’un ai a oedd angen creu’r swydd. Ystyriodd y Prif Weithredwr ei

bod hi'n hollol briodol creu swydd newydd ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol yn sgil integreiddiad cynyddol rhwng Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, graddfa'r her i'r gwasanaethau hyn, yr angen i wireddu arbedion ac i wella capasiti rheoli newid, a bod y cyflog arfaethedig yn briodol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y farn hon wedi'i chefnogi gan adolygiad cyfoedion allanol.

Ceisiodd yr Aelodau hefyd sicrwydd na fyddai creu swydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar lefel RhG yn effeithio ar y gwasanaeth yn fwy na'r hyn oedd eisoes wedi'i nodi yn yr Adroddiad Cabinet blaenorol.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

(1) Nodi'r Strwythur Uwch Reoli newydd a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad;

(2) Cymeradwyo'r datganiadau fel y'i nodwyd yn Atodiad 3 gan nodi dyletswyddau'r swyddi newydd a'r cymwysterau a'r nodweddion ddylid chwilio amdanynt yn y bobl fydd yn cael eu penodi;

(3) Cymeradwyo defnyddio telerau ac amodau presennol ar gyfer y swyddi newydd er mwyn alinio â'r swyddi uwch reoli presennol fel y'i nodwyd yn Atodiad 4;

(4) Cymeradwyo cyflog penodol newydd o £98,270 y flwyddyn ar gyfer swydd newydd y Prif Swyddog Digidol;

(5) Argymell cyflog penodol i'r Cyngor o £132,613 y flwyddyn i swydd newydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am